Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Finance Committee
Y Pwyllgor Cyllid

At Ymgyngoreion

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

8 Gorffennaf 2013

**Cais am dystiolaeth -Cyllido Addysg Uwch yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gwneud cais am wybodaeth i gynorthwyo yn ei ymchwiliad i Gyllido Addysg Uwch yng Nghymru.

Roedd hwn yn fater a ddaeth i'r amlwg yn ystod ein proses o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru y llynedd, ac y cytunodd y Pwyllgor i ail edrych arno pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael.

Cylch gorchwyl yr ymchwiliad Diben yr ymchwiliad hwn yw rhoi ystyriaeth i gyllido Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, i effaith ariannol polisi grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar sefydliadau addysg uwch a myfyrwyr yng Nghymru, a gofyn, i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru'n darparu gwerth am arian yn y maes hwn.

Nid yw'r polisi cyllido Addysg Uwch rhan-amser yn dod i rym tan 2014, ac felly mae'r ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar gyllido Addysg Uwch amser llawn.

Ffôn / Tel: 029 20 898149 E-bost / E-mail: Pwyllgorcyllid@cymru.gov.uk

Mae ein cylch gorchwyl yn cynnwys, yn fras, dair ffrwd incwm ar gyfer cyllido sefydliadau addysg uwch, a rôl cyllid yn y dewisiadau a wneir gan fyfyrwyr:

- Ymchwil – Pa mor effeithiol yw sefydliadau addysg uwch o ran sicrhau incwm ar gyfer gwaith ymchwil, gan gynnwys cyllid ar gyfer gwaith ymchwil gan Lywodraeth Cymru drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

- Incwm a chymorth ar gyfer ffioedd dysgu –Pa effaith ariannol a gaiff y polisi ffioedd dysgu newydd, a gyflwynwyd yn 2012, sy'n caniatáu i sefydliadau addysg uwch godi hyd at £9,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr am gyrsiau addysg uwch, a beth yw goblygiadau ariannol grant ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru?

- Cyfleoedd am incwm arall, neu fygythiadau eraill i incwm –Pa mor bwysig i sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yw'r ffrwd o incwm o ffioedd dysgu a geir gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r tu allan i Gymru, gan gynnwys myfyrwyr tramor, a beth yw canlyniadau ariannol newidiadau eraill yn y farchnad addysg uwch, yn awr neu yn y dyfodol, gan gynnwys cyflwyno darparwyr preifat?

- Dewisiadau i fyfyrwyr –Pa ystyriaethau ariannol sydd gan fyfyrwyr pan fyddant yn penderfynu a ydynt am gael addysg uwch, a beth yw effaith grantiau ffioedd dysgu Llywodraeth Cymru ar ddewis yr unigolyn?

Mae dwy gyfres o gwestiynau yn yr ymgynghoriad – un sydd wedi'i hanelu at sefydliadau ac un sydd wedi'i hanelu at fyfyrwyr a / neu eu rhieni/warcheidwaid.

Bydd hefyd arolwg manwl i fyfyrwyr, y gellir ei lenwi gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd ym mlynyddoedd 12 a 13, a myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau addysg uwch ar hyn o bryd.

**Atebwch y gyfres o gwestiynau sy'n fwyaf perthnasol i chi.**

## Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, yn y cyfeiriad uchod.

Dylai ymatebion gan sefydliadau gyrraedd erbyn dydd Gwener 27 Medi 2013. Dylai ymatebion gan fyfyrwyr/rhieni/gwarcheidwaid gyrraedd erbyn dydd Gwener 25 Hydref 2013.

Os hoffech gyfrannu ond eich bod yn pryderu na fyddwch yn gallu cyflwyno eich tystiolaeth erbyn y dyddiad cau, cysylltwch â Chlerc y Pwyllgor ar 029 2089 8409.

Os yw'n bosibl, dylech anfon fersiwn ddigidol, ar ffurf MS Word neu Destun Cyfoethog, mewn neges e-bost at PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk erbyn y dyddiad cau perthnasol.

**Datgelu Gwybodaeth**

Dylai tystion fod yn ymwybodol y caiff unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynir i'r Pwyllgor ei thrin fel eiddo'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisiau / cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus.

Bwriad y Pwyllgor yw cyhoeddi tystiolaeth ysgrifenedig ar ei wefan, ac mae'n bosibl y bydd y dystiolaeth hon yn cael ei chyhoeddi gyda'r adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth sy'n ddata personol yn ei farn ef, ac eithrio sylwadau neu ddata personol sy'n berthnasol i'ch statws fel awdur y dystiolaeth a'r statws yr ydych yn ei ddefnyddio, os o gwbl, i gyflwyno'r dystiolaeth (er enghraifft, teitl eich swydd).

Fodd bynnag, os yw cais am wybodaeth (gan gynnwys data personol) yn cael ei gyflwyno o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych, neu ran ohono. Gall hyn gynnwys data personol a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi (yn unol â'r drefn a ddisgrifir uchod).

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, neu os nad ydych am ddatgelu'r ffaith mai chi yw awdur y dystiolaeth dan sylw, mae'n rhaid ichi nodi hyn yn glir, a'ch cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid a'i gais am wybodaeth ar gael yn: www.cynulliadcymru.org

Yn gywir

**Jocelyn Davies Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

**A – Cwestiynau i <u>sefydliadau</u> eu hystyried**

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar unrhyw un o'r pwyntiau canlynol neu am bob un ohonynt:

*Ymchwil*

- Pa mor llwyddiannus yw Sefydliadau Addysg Uwch Cymru o ran sicrhau incwm ymchwil o bob ffynhonnell?

  Wrth ateb y cwestiwn uchod, efallai yr hoffech ystyried hefyd:

  - Pa ffactorau sy'n peri bod rhai Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn cael mwy o arian ymchwil nag eraill?

- Sut y gall Sefydliadau Addysg Uwch Cymru wella'u perfformiad er mwyn cyflawni uchelgais Llywodraeth Cymru, sef eu bod yn cael o leiaf 5 y cant o arian Cyngor Ymchwil y Deyrnas Unedig?
- Ym mha feysydd y mae Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn cydweithredu'n llwyddiannus i wneud cais am arian ymchwil, a sut y gellid gwella'r sefyllfa mewn meysydd eraill lle y mae angen rhagor o gydweithredu er mwyn cynyddu'r incwm ar gyfer ymchwil?

*Incwm ffioedd dysgu a chymorth*

- Pa effaith ariannol y mae'r **polisi ffioedd dysgu** newydd a gyflwynwyd yn y flwyddyn academaidd 2012/13 wedi'i chael, sef polisi sy'n caniatáu i Sefydliadau Addysg Uwch godi hyd at £9,000 y flwyddyn ar fyfyrwyr am gyrsiau AU? Pa effaith ariannol y mae'r polisi hwn yn debygol o'i chael yn y dyfodol?
- A yw'r polisi ffioedd dysgu newydd yn creu mwy o ansicrwydd ariannol ynteu llai o ansicrwydd ariannol i Sefydliadau Addysg Uwch? Esboniwch eich ateb.
- Beth fu goblygiadau ariannol **grant ffioedd dysgu** Llywodraeth Cymru, a beth fydd ei oblygiadau tebygol yn y dyfodol?
- A yw'r gyfundrefn ariannu bresennol yn rhoi cymorth ariannol effeithiol i fyfyrwyr o'r aelwydydd isaf eu hincwm, ac ai dyma'r ffordd fwyaf cost effeithiol o roi cymorth ariannol i'r cohort hwn o fyfyrwyr?
- Beth yw'r goblygiadau ariannol i Gymru yn sgil rhoi cymhorthdal i fyfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn Sefydliadau Addysg Uwch y tu allan i Gymru?
- Beth yw goblygiadau ariannol ariannu pynciau drutach (e.e. meddygaeth a pheirianneg) o dan y drefn ffioedd dysgu newydd o gofio y gall rhai cyrsiau

gostio mwy na'r uchafswm o £9,000 y flwyddyn i Sefydliadau Addysg Uwch eu darparu?

- Pa mor bwysig yw'r ffrwd incwm i Sefydliadau Addysg Uwch Cymru yn sgil ffioedd dysgu a delir gan fyfyrwyr sy'n hanu o'r tu allan i Gymru gan gynnwys y rhai sy'n hanu o weddill y Deyrnas Unedig, myfyrwyr o Ewrop a myfyrwyr tramor?

*Materion eraill sy'n ymwneud ag incwm a threfniadau ariannol*

- Pa gyfleoedd sydd i SAU Cymru gynyddu eu hincwm drwy recriwtio myfyrwyr ychwanegol?
- Pa gynnydd sy'n cael ei wneud mewn perthynas â dangosydd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, sef y bydd gan o leiaf 75% o Sefydliadau Addysg Uwch Cymru incwm blynyddol sy'n fwy na chanolrif y Deyrnas Unedig, a sut y gellid gwella hyn yn y dyfodol?

Daw'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus i ben ar 27 Medi 2013.

**B – Cwestiynau i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru a/neu i'w rhieni/gwarcheidwaid eu hystyried**

**Mae arolwg manwl i'w lenwi hefyd gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru ym mlynyddoedd 12 ac 13 a myfyrwyr sy'n hanu o Gymru sydd yn astudio mewn SAU ar hyn o bryd. Atebwch y set o gwestiynau sydd fwyaf perthnasol i chi.**

**Mae'r polisi grant ffioedd dysgu yn golygu mai'r ffioedd dysgu uchaf a delir gan fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn 2012/13 yw £3,465 (£3,575 yn 2013/14) a bydd y gwahaniaeth rhwng y swm hwn a'r hyn a godir gan y brifysgol (hyd £9,000) yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng grant ffioedd dysgu. Mae hyn yn berthnasol ar hyn o bryd i bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru sy'n mynd i'r brifysgol yng Nghymru neu yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig ac i fyfyrwyr yr Undeb Ewropeaidd sy'n astudio yng Nghymru.**

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich barn ar unrhyw un o'r pwyntiau canlynol neu am bob un ohonynt:

*Dewisiadau myfyrwyr*

- Pe na bai polisi grant ffioedd dysgu yng Nghymru (sy'n talu'r gwahaniaeth rhwng £3,575 a'r ffioedd dysgu a godir gan y brifysgol) a fyddai hyn yn gwneud gwahaniaeth i'ch penderfyniad chi/penderfyniad eich myfyriwr i fynd i'r brifysgol?

- Pe bai'r grant ffioedd dysgu ar gael i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru sy'n astudio ym mhrifysgolion Cymru yn unig, a fyddai hyn yn effeithio ar eich penderfyniad chi / penderfyniad eich myfyriwr i fynd i'r brifysgol?

Daw'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus i ben ar 28 Hydref 2013.